# Polisi Aflonyddu ar Fyfyrwyr

| | | |
|---|---|---|
| Swyddog Polisi | Uwch Swyddog sy'n Gyfrifol | Cymeradwywyd gan a'r dyddiad |
| Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Myfyrwyr | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Myfyrwyr | Grŵp Strategaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, Awst 2019 |
| Yn disodli | Adolygwyd ddiwethaf | Pwrpas y newid a disgrifiad ohono |
| Polisi Prifysgol Bangor ar Aflonyddu ar Fyfyrwyr | Tachwedd 2015 | Ail fer[redacted] |

Gall myfyrwyr sy'n dioddef aflonyddu, neu'n dod ar ei draws, ddweud wrth unrhyw aelod staff y teimla'r myfyriwr yn gyfforddus mynd ato/ati. Yn y rhan fwyaf o achosion gall hyn fod y Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Myfyrwyr, Tiwtor Personol, Uwch Warden mewn Neuaddau, Mentor Preswyl neu aelod o staff Gwasanaethau Myfyrwyr. Os ydych wedi bod yn dyst neu wedi cael gwybod



gbod

Mae gan bob aelod staff gyfrifoldeb i hyrwyddo amgylchedd diogel, ac os ydynt yn dyst i aflonyddu, yna mae'n rhaid iddynt weithredu fel y bo'n briodol i roi sylw iddo.

Gallai hynny gynnwys:

Holwch y myfyriwr i sicrhau bod eu diogelwch uniongyrchol ac anghenion cefnogi wedi eu cyflawni, a'u bod yn deall â phwy y gallant gysylltu os ydynt (neu pan maent) yn dymuno cael rhagor o gefnogaeth. Anogwch hwy i fynd i gyfarfod y  Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Myfyrwyr os yw'n briodol a hwyluswch gyfarfod o'r fath.  Os nad oes gan y myfyriwr le diogel i aros - cysylltwch â Swyddfa'r Neuaddau (01248 382667) neu'r Swyddfa Tai Myfyrwyr (01248 382034).

Ar ôl cael gwybod am achos o aflonyddu, mae'n rhaid i chi roi gwybod am y mater (gan gynnwys pa bynnag wybodaeth y mae'r myfyriwr yn dymuno ei rhannu) i'r Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio, gan ddilyn y drefn hysbysu a nodir yn Adran 5.2.2.

x Os ydych yn teimlo bod y risg i'r myfyriwr neu i eraill mor fawr fel y bydd rhaid efallai i'r brifysgol fynd yn groes i ddymuniadau'r myfyriwr i beidio â rhoi gwybod am y digwyddiad i'r heddlu, yna dylid gofyn am gyngor gan y Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio ac/neu aelod oxstaff uwch y brifysgol i sefydlu camau gweithredu priodol.  Gallai hyn fod yn angenrheidiol, er enghraifft, os oes risg uchel y gall y tramgwyddwr honedig aflonyddu ar y myfyriwr drachefn neu

[i] Cyngor ar Bopeth https://www.citizensadvice.org.uk/law-and-courts/discrimination/what-are-the-different-types-